

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

2 o'r gloch Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2016
Ystafell Bwyllgor yr Uned Gwasanaethau Democraidd,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Mair Stephens	MS	Aelod Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd)
Cyng. Cefin Campbell	CC	Plaid Cymru (Is-gadeirydd)
Cyng. Ryan Bartlett	RT	Llafur
Cyng. Deryk Cundy	DC	Llafur
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Gwyn Hopkins	GH	Plaid Cymru
Cyng. Hugh Richards	HR	Annibynnol
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol
Swyddogion		
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Llinos Quelch	LIQ	Pennaeth Cynllunio
Ian Llewelyn	ILI	Pennaeth Blaengynllunio
Matt Miller	MM	Rheolwr Gwasanaethau Tai
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Bethan James	BJ	Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Mair Stephens. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Calum Higgins, Cynghorydd Joseph Davies, Wendy Walters a Myfanwy Jones.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cyfeiriwyd at y cyfarfod i drafod gwersi nofio rhwng y Cynghorydd Mair Stephens ac Ian Jones, a'i fod yn cael ei drefnu.	
3.	Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i TAN 20	

Croesawyd Llinos Quelch ac Ian Llywelyn i'r cyfarfod er mwyn trafod adborth y Cyngor i'r newidiadau diwygiedig i Nodyn Cyngor Technegol 20. Bydd ymateb y swyddogion yn mynd i'r Pwyllgor Cynllunio ac i'r Bwrdd Gweithredol cyn cyflwyno'r ymateb.

Amlygwyd bod cysylltiad llawer cryfach gyda'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau Cynllunio nac yn y gorffennol ac mae'n rhoi syniad sut i ystyried yr iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Gâr wedi bod yn gwneud rhai o'r pethau hyn eisoes.

Bydd y Cyngor yn nodi yn ei ymateb bod rôl i ganolwr (mediator) neu modd i gynghorau weithio ar y cyd yn hytrach na phob Awdurdod Lleol yn gweithredu asesiadau gwahanol. Nid yw'r Nodyn Cyngor Technegol 20 yn gofyn am asesiadau ar gyfer datblygiadau sydd eisoes yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ond yn hytrach ceisiadau nid ydym wedi rhagweld. Soniwyd bydd angen gwneud peth gwaith mewnol o ran ymarferoldeb asesu effaith iaith.

Cyfeiriwyd at gynllun mabwysiedig gwreiddiol y Cyngor a'i fod yn gryfach ond bod y Cyngor wedi gorfod lleihau'r gofynion oherwydd disgwyliadau'r Arolygiaeth Gynllunio.

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cryfhau'r Gymraeg o ran cyd-destun Cynllunio ond nid yw'n mynd yn ddigon pell i gyrraedd beth oedd yng Nghynllun Datblygu Lleol gwreiddiol y Cyngor Sir.

Soniwyd bod angen barn annibynnol/ffrind beirniadol (critical friend) i ddilysu beth mae'r Cyngor yn gwneud. Codwyd amheuaeth ai'r Awdurdod Lleol ddylai wneud yr asesiad gan fod gwrthdaro o ran buddiant a bod angen asesu ceisiadau yn wrthrychol. Awgrymwyd dylid gweithio gyda Chynghorau Lleol eraill er mwyn cytuno ar ffordd mlaen.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'r Asesiad Cynaliadwyedd sy'n cynnwys ffactorau lliniaru ond bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu o fewn polisiau cenedlaethol.

Tynnwyd sylw at nifer o bentrefi sydd wedi cael datblygiadau mawr yn ystod y blynyddoedd a bod hyn ar adegau wedi effeithio ar iaith yr ysgolion gyda mwy o Saesneg.

Awgrymwyd dylid ychwanegu ffactorau lliniaru ar y gymuned yn hytrach na'r datblygiadau unigol. Soniwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau paratoi templed asesu effaith iaith mewn partneriaeth â'r Awdurdodau. Mynegwyd pryder o ran diffyg arweiniad oddi wrth y Llywodraeth gan fod modd dehongli yn wahanol o fewn y templed.

Mae asesiadau wedi cael eu gwneud ar rai darnau o dir sydd yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol wrth roi'r Cynllun at ei gilydd. Mae'r Cyngor yn gorfod gwneud asesiad cynaliadwyedd a bydd yn rhoi'r adroddiad cyntaf i'r Cynulliad ym mis Hydref ac fel rhan o'r asesiad bydd y Cyngor wedi ystyried effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae hwn yn rhan o'r broses o ystyried a oes angen gwneud newidiadau i'r Cynllun.

Dyraniad tai Sir Gâr o fewn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yw 15,997 o dai. Mae'r Cynllun yn cael ei fonitro bob 4 blynedd er mwyn gweld os yw'r Cynllun yn gweithio neu a oes angen addasu.

Soniwyd bod mwy o waith yn digwydd gyda'r mathau o dai sy'n cael eu

	<p>hadeiladu, nid yn unig tai fforddiadwy, ond bob math o dai.</p> <p>Cyfeiriwyd at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn galw ar adolygu rhai ceisiadau ac yn tanseilio penderfyniad y Cyngor ar sail effaith ieithyddol.</p> <p>Nodwyd bydd cyfle i gyfrannu i'r ymateb drwy'r Pwyllgor Cynllunio, Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr i anfon sylwadau at Llinos Quelch neu Ian Llywelyn cyn gynted â phosib ac erbyn diwedd mis Chwefror ar yr hwyraf. Gofynnwyd i fynd â'r ymgynghori i Bwyllgor Craffu Cymunedau hefyd.</p>	
4.	<p>Diweddariad – Adran Dai</p> <p>Mae'r Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy yn cael ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau dydd Gwener, 12 Chwefror. Bydd y Cynllun yn cael ei ddisbarthu i'r cyhoedd yn dilyn hynny.</p> <p>Mae 5 egwyddor yn ffurfio'r Cynllun sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Targedu'r angen ble mae'r angen ar ei uchaf, naill ai trefol neu wledig, gan gynnig mwy o gartrefi fforddiadwy ar rent 2. Bod yn fwy hyblyg – naill ai drwy dod a chartrefi gwag nôl i ddefnydd, prynu tai neu adeiladu rhai newydd 3. Bod yn greadigol i greu mwy o gartrefi 4. Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau bosib er mwyn sicrhau cynifer o dai newydd â phosib 5. Defnyddio arbenigedd, sgiliau ac adnoddau eraill <p>Nodwyd bod cyswllt rhwng anghenion cymunedau a'r galw am dai.</p> <p>Mae cais wedi mynd i'r CIL (Community Infrastructure Levy) i ddatblygu pecyn croeso sy'n rhan o argymhellion adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'.</p>	
5.	<p>Safonau Iaith Gymraeg</p> <p>Nodwyd nad yw'r Cyngor Sir wedi apelio'r Safonau eto. Soniwyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cynghorwyr o bob Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg yn cyfarfod dydd Iau, 11 Chwefror a bydd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg yn dod i'r cyfarfod hwnnw yn y prynhawn.</p> <p>Mae'r tîm polisi yn gweithio trwy'r Safonau ac yn paratoi Cynllun Gweithredu i gyd-fynd gyda'r 170 o Safonau.</p> <p>Dosbarthwyd Canllawiau sy'n ymwneud â delio ag ymholiadau ffôn a gohebu a nodwyd bod rhain wedi cael eu paratoi at ddefnydd staff. Bydd mwy o ganllawiau yn cael eu paratoi yn ystod y mis nesaf er mwyn egluro'r Safonau i staff.</p> <p>Bydd yr awdit o sgiliau iaith staff y Cyngor yn digwydd yn ystod mis Mawrth ac yn dilyn casglu data oddi wrth staff sy'n gweithio ar gyfrifiadur, byddwn yn</p>	

	<p>dechrau casglu data oddi wrth staff nad sy'n gweithio mewn swyddfa yn syth.</p> <p>Nodwyd bod yr ymholiadau mewnol gan staff a gwasanaethau am y Safonau yn cynyddu sy'n arwydd da o safbwynt ymwybyddiaeth o'r gofynion ond mae hyn hefyd yn cymryd amser i'r tîm ymdrin â'r ymholiadau.</p> <p>Trafodwyd y polisi o ddefnydd iaith mewnol sef safon 98 a bydd y Cyngor yn gosod allan egwyddorion o ran defnydd mewnol gan gynnwys annog staff i ddefnyddio'u Cymraeg. Bydd y polisi hefyd yn gosod canllawiau, er enghraifft, bod unrhyw ohebiaeth sy'n mynd at holl staff y Cyngor yn cael ei hanfon yn ddwyieithog. Polisi defnydd mewnol cychwynnol fydd hwn gyda'r bwriad o adeiladu arno dros gyfnod o amser.</p> <p>Bydd bwriad i barhau â'r prosiect Pencampwyr Iaith gan ymestyn o bosib i bob is-adran o'r Cyngor.</p> <p>Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn gobeithio paratoi pecyn cefnogi da i staff er mwyn eu galluogi nhw i wella eu sgiliau. Mae hyn yn ddibynnol ar hyn o bryd ar gael eglurder gan ein darparwr Cymraeg i Oedolion newydd o ran y cynnig fydd ar gael yn lleol. Bydd angen i'r Cyngor ystyried sut mae defnyddio ac adeiladu ar y cynnig er mwyn gallu cefnogi staff yn ddigonol. Mae cwrs 'Croeso i'r Gymraeg' wedi dechrau yn dilyn y Cyngor llawn yn derbyn y Strategaeth Sgiliau Iaith ym mis Ionawr.</p> <p>Cytunwyd i drafod y polisi mewnol yng nghyfarfod nesaf y Panel ym mis Mai.</p> <p>Bydd cwrs 'Gwella'ch Cymraeg' i godi hyder siaradwyr Cymraeg yn cael ei beilota gyda staff yr isadran 'Adfywio a Pholisi'.</p> <p>Nodwyd bod un Cyfarwyddwr wedi gofyn i beilota cyrsiau dwys ar gyfer pob lefel i gefnogi staff o fewn yr adran.</p>	
6.	<p>Strategaeth Hybu</p> <p>Soniwyd bod y Fforwm Strategol Sirol yn gofyn i'r Cyngor edrych ar yr argymhellion sy'n berthnasol i gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau Sir Gâr ac i baratoi tafluniad 5 mlynedd. Nodwyd bod y Fforwm yn gofyn i'r Cyngor am fwy o fanylion beth mae eisiau cynnwys yn y Strategaeth Hybu.</p> <p>Awgrymwyd y dylid gofyn i'r partneriaid i nodi beth yw eu blaenoriaethau er mwyn cael sail i'r Strategaeth Hybu.</p> <p>Penderfynwyd i drefnu cyfarfod arbennig o'r Panel i drafod y Strategaeth Hybu.</p>	
7.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Ni chodwyd unrhyw fater arall.</p>	
8.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>Nodwyd bod y cyfarfod nesaf wedi cael ei drefnu ar gyfer 4 Mai 2016 ond oherwydd y cyfarfod arbennig a'r etholiad ar 5 Mai, cytunwyd i ohirio'r</p>	

	<p>cyfarfod.</p> <p>Cytunwyd i osod y canlynol ar agenda'r cyfarfod arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none">• Strategaeth Hybu• Amserlen gweithredu Gweithgor y Cyfrifiad a'r Safonau.	
--	---	--